# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Fframwaith Craffu Cymunedol Drafft, Swyddfa Gartref: Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cenedlaethol ar gyfer Paneli Craffu Cymunedol

[Canllawiau cenedlaethol ar gyfer paneli craffu cymunedol - GOV.UK (www.gov.uk)](https://www.gov.uk)

Yn cau 19 Hydref 2024

Cwestiynau:

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n credu bod y fframwaith drafft hwn a'r cylch gorchwyl ar gyfer craffu cymunedol ar bwerau'r heddlu yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yng Ngham Gweithredu 10 'Prydain Gynhwysol'?**

**Ydw**
Nac Ydw

Sylwadau
Er ein bod ni'n cytuno ag egwyddor y fframwaith a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, yr ydym ni'n credu y gallai sawl maes achosi dryswch a chyfyngu ar y cyfle i gyflawni ei amcanion.

Mae'r fframwaith yn nodi bod y Panel Craffu Cymunedol i fod yn annibynnol o Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ond mae'n sôn wedyn y gall y ddau gorff fynd at unigolion penodol i ymuno â'r Panel. Yn ogystal â hyn, mater i'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yw dewis aelodau'r Panel, er mwyn i'r Panel fod yn annibynnol, yna byddem ni'n disgwyl proses ddethol a fyddai'n cynnwys partneriaid neu'r rhai sy'n annibynnol o gylch gwaith y panel fod yn rhan o'r broses. Gallai'r diffyg annibyniaeth atal ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned yn enwedig os yw'n ymddangos mai'r rhai y cysylltir â nhw yn unig all wneud cais. Os oes amheuaeth ynghylch annibyniaeth y Paneli Craffu Cymunedol, gellid ystyried hyn fel yr Heddlu yn marcio eu gwaith eu hunain.

Gwnaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru gynnal gweithdy ymgysylltu, lle'r oedd aelodau o'r Heddlu, Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Prawf yn bresennol, ar y Fframwaith a mynegwyd pryder ynghylch y fetio a sut y gallai hynny atal pobl rhag ymgysylltu a chyfyngu ar bwy all ddod i'r Paneli, a allai effeithio ar gyflawni'r nod fel sydd wedi'i nodi yn y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 2. A yw'r fframwaith drafft yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng nodi egwyddorion allweddol a sicrhau cyfle ar gyfer hyblygrwydd mewn trefniadau craffu lleol?**

- Ydy
- **Nac ydy**
- I raddau

Sylwadau:
Ymddengys nad oes unrhyw unrhyw sôn nac awgrym y gallai fod unrhyw gysylltiadau rhwng y Paneli Craffu Cymunedol a'r Panel Heddlu a Throsedd neu'r Cydbwyllgorau Craffu, y mae'r ddau eisoes yn gweithio i ddwyn yr Heddlu a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i gyfrif.

Credwn y gellid cryfhau'r cysylltiadau rhwng cwmpas y Paneli Craffu Cymunedol a'r Cynllun Heddlu a Throsedd lleol fel bod themâu tebyg ynddynt.

Mae'r ffaith na ddylai unrhyw beth sydd efallai'n dal i fod yn mynd drwy'r llysoedd neu a allai fod yn ddarostyngedig i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, fod yn rhan o'r cwmpas, yn fater arall. Er ein bod ni'n cytuno â hyn yn gyffredinol, bydd hefyd yn cyfyngu ar allu'r Panel Craffu Cymunedol i roi cyngor ac adborth mewn modd amserol a allai arwain at well ymgysylltiad cymunedol. Er enghraifft, mae Heddlu De Cymru wedi cael dau ddigwyddiad a gafodd sylw yn y newyddion cenedlaethol – terfysgoedd Mayhill yn Abertawe yw un a'r ail yw terfysg Trelái yng Nghaerdydd. Yn y ddau achos yr oedd yr ymateb yn gofyn am ymgysylltu â'r gymuned leol yn fuan ar ôl hynny ond yn y ddau achos ni fydd y naill na'r llall yn gymwys ar gyfer unrhyw drafodaeth yn y Panel Craffu Cymunedol lle gallai syniadau ac awgrymiadau ychwanegol gael eu gwneud. Mae angen diogelu uniondeb a chyfiawnder ymchwiliadau ac unrhyw gysylltiad posibl neu gysylltiad presennol â'r system cyfiawnder troseddol, fodd bynnag, gallai eithrio'r hyn sy'n rhan bwysig o ymgysylltu â'r gymuned olygu nad oes llawer o ddylanwad a llais gan y Paneli Craffu Cymunedol. Roedd yr ymateb i derfysgoedd Mayhill a Threlái yn cynnwys ymateb partneriaeth ac yr oedd yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector (Cymdeithasau Tai, Elusennau a Grwpiau Cymunedol) yn cydweithio ac yn cynnig atebion gyda'i gilydd.

**Cwestiwn 3. A yw'r fframwaith drafft yn glir ac yn hygyrch i'w gynulleidfaoedd arfaethedig, yn cynnwys aelodau a chadeiryddion paneli craffu cymunedol?**

- Ydy
- **Nac ydy**
- I raddau

Sylwadau:
Nac ydy, yr ydym ni'n credu bod y talfyriad ar gyfer enw Paneli Craffu Cymunedol yn mynd i achosi dryswch â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sydd hefyd yn defnyddio'r talfyriad CSP ac sydd wedi bod mewn deddfwriaeth ers Deddf yr Heddlu a Throsedd 1998. Mae'r Heddlu yn un o bartïon cyfansoddiadol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac mae dyletswydd arnyn nhw i weithio tuag at wneud y gymuned yn fwy diogel. Gwnaeth y Swyddfa Gartref gynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar roi mwy o ran i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a chynyddu'r ymgysylltiad yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'n werth nodi hefyd bod tri allan o'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru yn rhan o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac mae'r pedwerydd yn ymgysylltu'n barhaus ar gyfer unrhyw faterion sy'n datblygu. Yn y gweithdy y gwnaethom ni ei gynnal gydag aelodau'r Rhwydwaith, teimlwyd y gallai fod yn fwy priodol cyfeirio at y Paneli Craffu Cymunedol fel y Grwpiau Craffu Cymunedol (CSG) fel bod dau dalfyriad gwahanol yn cael eu defnyddio.

Nododd y bobl a oedd yn bresennol yn y gweithdy hefyd y gallai'r gair craffu atal pobl rhag dod, yn enwedig gan fod craffu yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i raddau helaeth yn y sector cyhoeddus ac nid yw'n derm y mae pawb yn deall ei ystyr.

O ran hygyrchedd byddai rhestr o acronymau yn ddefnyddiol i ddarllenwyr ei defnyddio i gyfeirio ati yn hytrach na'u bod nhw'n gorfod mynd drwy'r ddogfen er mwyn dod o hyd i'r enghraifft gyntaf o'r acronym.

**Cwestiwn 4. Oes unrhyw ystyriaethau perthnasol y mae'r fframwaith drafft wedi'u hepgor neu heb roi sylw digonol iddynt?**

- **Oes**
- Nac oes

Sylwadau:
Ymddengys nad oes unrhyw awgrym o sut y byddai'r Paneli Craffu Cymunedol yn cysylltu â phaneli, partneriaethau a grwpiau eraill ac nid oes cyfeiriad at hyn chwaith. Mae diogelwch cymunedol yn aml yn cael ei ddarparu trwy bartneriaeth ac felly mae'n bosibl na fydd rhai penderfyniadau ynghylch ble y cynhelir gweithgaredd yn gyfan gwbl ar sail penderfyniadau neu ddata gan yr Heddlu ond hefyd gan bartneriaid eraill, yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a phartneriaid trydydd sector neu grwpiau cymunedol. Ymgymerir â datrys problemau â thema yn aml ar lefelau strategol, gweithredol ffurfiol ac anffurfiol yn enwedig â'r elfen gynyddol o gydweithio a chydleoli gwasanaethau a chymorth.

Yn ystod y gweithdy a gynhaliodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, codwyd y pwynt, o ganlyniad i'r partneriaethau sydd eisoes ar waith, y gallai rhywfaint o'r adborth fod yn adborth ar y cyd y byddai angen ei fwydo i'r grwpiau partneriaeth a rennir, ac yng Nghymru, mae'n debyg mai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol fyddai'r rhain. Wrth adolygu'r dirwedd dylid nodi y bydd yn wahanol yng Nghymru a Lloegr.

**Cwestiwn 5. Oes gennych chi unrhyw adborth arall ar y fframwaith drafft a'r cylch gorchwyl?**

Sylwadau
Awgrymwyd y gallai'r gofyniad i gofnodion gael eu cyhoeddi fel ffordd o sicrhau tryloywder hefyd atal unigolion a oedd yn bresennol rhag teimlo eu bod nhw'n gallu mynegi eu barn yn llawn. Gwnaed argymhelliad, yn lle cofnodion llawn, y gallai nodiadau sy'n crynhoi trafodaethau gael eu gwneud yn gyhoeddus ond ni fyddai'r rhain yn nodi pa sylwadau y cafodd eu gwneud gan ba unigolion a oedd yn bresennol, neu ba unigolion, os o gwbl, nad oedd yn cytuno â phenderfyniad.

Roedd aelodau'r Rhwydwaith a oedd yn bresennol yn y gweithdy o'r farn ei bod yn bwysig bod y Panel Craffu Cymunedol yn annibynnol ac felly yr oedd yr awgrym y gallai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod yn Gadeirydd gael ei ystyried yn groes i ganllawiau'r fframwaith. Mae gofyn amlwg i'r Panel Craffu Cymunedol ethol Cadeirydd o'r grŵp sydd wedi'i ddewis i fod yn bresennol.

Mynegwyd pryder ynghylch yr adnoddau y byddai eu hangen ar y Panel Craffu Cymunedol gan y byddai angen o leiaf un aelod o staff llawn amser arnyn nhw, a allai ar ben trefniadau eraill ychwanegu at y pwysau sydd ar gyllidebau'r Heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Fel Rhwydwaith, yr ydym ni'n ymwybodol bod nifer o grwpiau ymgysylltu eisoes yn cael eu cynnal ledled Cymru. Nid yw'n ymddangos bod y fframwaith yn caniatáu ehangu ar y trefniadau hyn. Yn lle hynny, bydd grŵp Panel Craffu Cymunedol newydd yn cael ei sefydlu. Ymddengys mai dyma'r dull drutaf a hoffem ni bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o ehangu'r trefniadau presennol pan fyddan nhw eisoes ar waith.

**Cwestiwn 6. Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?**

- **Ydw**
- Nac ydw

Enw'r sefydliad:
Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

**Cwestiwn 7. Ydych chi'n fodlon nodi eich enw a'ch cyfeiriad e-bost?**

- **Ydw**
- Nac ydw